| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
| **DYDDIAD** | 7 Chwefror 22017 |
| **TEITL** | System talu ar-lein |
| **PWRPAS** | Er gwybodaeth |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr adroddiad |
| **AWDUR** | Owen Owens |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | Y Cynghorydd Gareth Thomas |

## 1. Cefndir

1.1 Yn dilyn galwadau o sawl cyfeiriad, gan gynnwys ysgolion a rhieni, mae'n fwriad gweithredu cynllun fyddai'n cyflwyno system talu ar-lein ar gyfer talu am ginio ysgol yn ysgolion cynradd ac arbennig y Sir.

1.2 Llythyrwyd â'r ysgolion cynradd ac arbennig gan amlinellu bwriadau'r cynllun gan wahodd unrhyw ysgol oedd â gwrthwynebiad roi gwybod am hynny erbyn 27 Ionawr, 2017 (gweler Eitem 7 - Atodiad 1)

1.3 Nodwyd hefyd y bydd yr Awdurdod yn ysgwyddo costau sefydlu'r meddalwedd, ond bydd costau blynyddol rhedeg y system yn disgyn ar yr ysgolion. Atodwyd taenlen i'r ysgolion yn nodi'r costau blynyddol i ysgolion unigol yn seiliedig ar niferoedd disgyblion ym Medi 2016 (gweler Eitem 7 – Atodiad 2).

1.4 Bwriedir cyflwyno'r system talu ar-lein ym Medi 2017.

## 2. Ymateb yr ysgolion

2.1 Derbyniwyd ymateb gan 8 ysgol. Nid oedd gwrthwynebiad i'r cynllun, ond roedd rhai pryderon ynglŷn â'r effaith ar glercod arian cinio.

2.2 Dyma'r sylwadau a dderbyniwyd:

i) Dim ond un cwestiwn- sut mae'r rhieni sydd heb yr adnoddau angenrheidiol yn mynd i dalu?

ii) Does gennym ddim gwrthwynebiad i'r cynllun yma. Mae yn rhywbeth sydd wedi bod yn fater trafod gyda staff a llywodraethwyr yn aml llynedd. Rwy'n falch fod hwn yn cael ei sefydlu.

iii) Diolch! Wedi bod yn aros yn eiddgar am system o'r fath ers tro byd.

iv) Rwyf yn croesawu'r datblygiad o ran talu ar lein, ond lle mae hyn yn gadael ein clercod arian cinio ni felly? Byddai eu swyddi hwy yn gorfod mynd er mwyn i ysgolion allu cyllido'r cynllun. Trefniadau gormodedd ar draws ysgolion y sir?

v) Dim ond ambell gwestiwn - beth yn union fuasai'n digwydd i swydd y clerc arian cinio o Fedi 2017 ymlaen? Faint o waith gweinyddu fuasai yn yr ysgol wedyn? Rydym newydd benodi clerc newydd ac yn bryderus beth fuasai oblygiadau'r system newydd i'r gyflogaeth honno.

vi) Diolch, syniad da iawn. Beth fydd yn digwydd i'r clercod cinio sydd yn yr ysgolion? Dw i'n cymryd na fydd eu hangen.

vii) Dim gwrthwynebiad mewn egwyddor ond mae'n swm ychwanegol i ddod allan o gyllideb yr ysgol fyddai fy unig gonsyrn. A fyddai costau hyfforddi staff ychwanegol a phwy fyddai'n gyfrifol am faterion megis e-ddiogelwch? Dwi'n cymryd na fyddai'n rhaid i bawb ei ddefnyddio, e.e. cartrefi heb fandeang. Hefyd a yw'n sustem gellid ei ddefnyddio ar ffôn/tablet? Lleihau mae nifer o gartrefi sydd â chyfrifiadur traddodiadol mae'n debyg.

viii) A oes bwriad yn sgìl hyn i ddileu swydd clerc cinio? Pwy fydd yn gwirio taliadau'r rhieni ar lein ac yn gyfrifol am gasglu a llythyru dyledion cinio? Gweld fy hun mewn ysgol fach angen gwirio dogfen Excel arall i wirio taliadau. Ei weld yn effeithiol ac yn haws ei weinyddu mewn ysgolion mwy. Wedi dweud hynny mae casglu arian a chael amser i fancio yn her yma hefyd yn enwedig gyda chymaint o fanciau yn cau ac amseroedd swyddfeydd post cefn gwlad yn anghyson.

## 3. Casgliad

3.1 Nid oes gwrthwynebiad gan yr ysgolion i'r cynllun

3.2 Roedd pryder amlwg ynglŷn â'r effaith ar swyddi clercod arian cinio. Gellir rhagweld y byddai ysgolion yn dymuno gweld effaith y system ar arferion yr ysgol cyn dod i unrhyw benderfyniad ynglŷn â gwaith eu clercod arian cinio. Buasai'n eithriadol petai ofynion casglu arian parod yn diflannu o ysgol yn gyfan gwbl o gyflwyno'r system. Mater i ysgolion unigol fyddai penderfyniadau staffio lleol.

3.3 Roedd pryder hefyd ynglŷn â chyfle i deuluoedd heb gyfrifiaduron allu wneud taliadau electronig. Fe fydd modd defnyddio dulliau talu megis PayPoint (sef talu mewn siopau, yn debyg i roi 'top-up' i drydan neu nwy). Fe fydd yn bosib defnyddio teclynnau megis ffôn/tablet.

## 4. Argymhelliad

4.1 Derbyn yr adroddiad uchod.